

Atodlen Penderfyniadau

Aelod Cabinet dros Addysg a'r Blynyddoedd Cynnar

I BOB AELOD CYNGOR DINAS CASNEWYDD

Atodlen Penderfyniadau a gyhoeddwyd ar 06 Mehefin 2023

Gwnaeth yr Aelod Cabinet y penderfyniadau canlynol ar 06 Mehefin 2023. Byddant yn dod i rym ganol dydd ar 14 Mehefin 2023 ac eithrio unrhyw benderfyniad penodol, sy'n destun "galw i mewn" dilys.

Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ffurflen cais 'Galw i Mewn' yw 4.00 pm ar 13 Mehefin 2023.

Gellir dod o hyd i wybodaeth yn ymwneud â'r broses 'Galw i Mewn' trwy'r Gwasanaethau Democraidd.

Nid yw adroddiadau sy'n ymwneud â materion staffio / adroddiadau cyfrinachol yn cael eu dosbarthu i holl aelodau'r Cyngor fel rhan o'r prosesau ymgynghori / galw i mewn.

Addysg a'r Blynyddoedd Cynnar 04/23

Cynnig Ad-drefnu Ysgolion ar y Cyd – Lleihau Capasiti ac Ymestyn yr Ystod Oedran yn Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas

Opsiynau a Ystyriwyd / Rhesymau dros y Penderfyniad

Cyfeiriodd yr adroddiad hwn at y gofyniad i symud i ymgynghoriad ffurfiol fel rhan o gynnig ad-drefnu ysgolion statudol mewn partneriaeth â Chorff Llywodraethu Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas i leihau capasiti'r ysgol o fis Medi 2024, ac i ymestyn ystod oedran yr ysgol o fis Medi 2025.

Dros y blynyddoedd diwethaf mae nifer y disgyblion sy'n mynychu Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas wedi gostwng yn sylweddol. Ym mis Ionawr 2023, roedd 25% o leoedd gwag yn yr ysgol. Mae'r rhagamcanion disgyblion yn dangos y byddai nifer y lleoedd gwag yn parhau i gynyddu yn yr ysgol dros y 5 mlynedd nesaf. Hefyd yr ysgol hon oedd yr unig ysgol gynradd yng nghlwtwr Ysgol Uwchradd Casnewydd nad oedd yn cynnig dosbarth meithrin.

Yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion statudol Llywodraeth Cymru, rhaid i gynigion ad-drefnu ysgolion ddechrau gyda chyfnod o ymgynghori ffurfiol ac ymgysylltu â rhanddeiliaid. Roedd y pecyn ymgynghori ffurfiol yn cynnwys rhagor o wybodaeth am y cynnig i alluogi i bob ymgynghorai a rhanddeiliad gael gwybodaeth lawn am y cynigion ar gyfer sefydlu'r ddarpariaeth newydd hon.

Penderfyniad

Cadarnhau y gellid bwrw ymlaen â chynnig ad-drefnu ysgolion "i leihau capasiti Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas o 378 i 315 o leoedd i ddisgyblion o fis Medi 2024, ac ymestyn ystod oedran yr ysgol o 4-11 oed i 3-11 oed o fis Medi 2025".

Ymgynghoriad

Pennaeth y Gyfraith a Safonau, Pennaeth Pobl, Polisi a Thrawsnewid a Phennaeth Cyllid.

Ymgynghorwyd â'r holl aelodau a rhoddwyd cyfle iddynt wneud sylwadau. Mae unrhyw sylwadau a dderbyniwyd ac ymateb wedi hynny wedi'u nodi yn yr adroddiad.

Gweithredir gan: Prif Swyddog Addysg

Amserlen Weithredu: Ar unwaith

Y CYNGHORYDD D DAVIES, AELOD CABINET DROS ADDYSG A'R BLYNYDDOEDD
CYNNAR

Dyddiad: 06 Mehefin 2023
